**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Llinos Madeley
Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
seneddPPIA@senedd.cymru

12/02/2021

Annwyl Glerc,

**Nodyn briffio ar y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru**

Mewn llythyrau diweddar at y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg fe wnaeth y pwyllgor holi am ragor o wybodaeth ynghylch ymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y llythyr at y Gweinidog Addysg yn holi yn benodol ynghylch trafodaethau rwyf i wedi eu cael â'r Gweinidog ar y materion hyn. Er mwyn egluro'r cyd-destun oedd yn gefndir i'r trafodaethau hyn, rwyf yn rhannu copi o'r nodyn briffio y gwnaethom gyhoeddi ym mis Awst 2020. Fel y gwelwch, mae'r nodyn briffio yn cynnig dadansoddiad manwl o sefyllfa gweithlu addysg statudol cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru a sefydliadau perthnasol eraill. Rwyf yn gobeithio y bydd cyfle yn y dyfodol agos i drafod argymhellion yr adroddiad mewn mwy o fanylder, ac y bydd modd cydweithio â'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill ar y materion allweddol hyn.

Yr eiddoch yn gywir,

**Aled Roberts**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Lynne Neagle AS, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,
Lynne.Neagle@senedd.cymru

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner




# Nodyn briffio

## Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru

Awdur: Hywel Iorwerth
Dyddiad: 6 Awst 2020

# Cynnwys



| | |
|---|---|
| **Rhagair y Comisiynydd** | **2** |
| **Cyflwyniad a chrynodeb o'r argymhellion** | **3** |
| **1. Cyd-destun polisi** | **5** |
| **2. Darlun ystadegol** | **7** |
| 2.1 Prif ganfyddiadau sy'n deillio o'r darlun ystadegol | 15 |
| **3. Dadansoddi strategaethau'r Llywodraeth ac argymhellion i'r dyfodol** | **18** |
| 3.1 Annog siaradwyr Cymraeg i ymuno âr proffesiwn addysgu yng Nghymru | 18 |
| 3.2 Y broses hyfforddi athrawon | 24 |
| 3.3 Cynnal a datblygu sgiliau'r gweithlu | 30 |
| 3.4 Cynllunio strategaeth genedlaethol | 31 |

# Rhagair y Comisiynydd

Mae’r her i sicrhau digon o athrawon cyfrwng Cymraeg yn un anferthol. Mae perygl gwirioneddol y bydd diffyg athrawon cyfrwng Cymraeg yn tanseilio dau o gonglfeini strategaeth Cymraeg 2050, sef cynyddu’r niferoedd sy’n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, a gweddnewid sut mae’r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

Mae angen ymyrraeth sylweddol a newid meddylfryd yn llwyr. Oni bai bod strategaeth a gweithredoedd y Llywodraeth yn adlewyrchu maint yr her sydd yn ein hwynebu yn y cyd-destun hwn, mae’n anochel na chaiff amcanion strategaeth Cymraeg 2050 eu cyflawni. Mae hefyd yn amlwg bod angen gweithredu ar frys. Nid yn unig bydd y newidiadau sydd eu hangen yn cymryd amser i’w gweithredu, ond rhaid cofio y bydd ymyraethau ym maes hyfforddi athrawon yn cymryd cryn amser nes y byddant yn cael effaith ar sefyllfa’r gweithlu addysg ar lawr gwlad.

O’r holl ymrwymiadau a thargedau a geir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, mae’n amhosibl osgoi’r ffaith fod creu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog yn gwbl allweddol i lwyddiant y strategaeth. Mae’r sector hyfforddi athrawon yn faes lle gall arweiniad cadarn a beiddgar Llywodraeth Cymru arwain at newidiadau pellgyrhaeddol i nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Mae’n bryd cael strategaeth hyfforddi athrawon sy’n adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth dros yr iaith Gymraeg.



Aled Roberts

Comisiynydd y Gymraeg



# Cyflwyniad a chrynodeb o’r argymhellion

Er mwyn cyflawni gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, bydd rhaid sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy’n gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Ni ellir cyflawni’r twf angenrheidiol hwn oni bai bod digon o athrawon yng Nghymru â’r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pwrpas y nodyn briffio hwn yw pwysleisio pwysigrwydd datblygu gweithlu addysg ddwyieithog, amlygu maint yr her sy’n ein hwynebu yng Nghymru yn y cyd-destun hwn, ac amlinellu natur a chwmpas y strategaethau a pholisïau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Dyma grynodeb o brif argymhellion y nodyn briffio (gweler yr argymhellion yn llawn yn adran 3):

1. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ddefnyddio’r holl ffynonellau data sydd ar gael er mwyn dadansoddi’n fanwl yr angen fydd yn y dyfodol am athrawon cyfrwng Cymraeg. Dylai hyn gynnwys nifer yr athrawon fydd eu hangen mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg, a hynny ar sail dull mwy soffistigedig o ddiffinio a chofnodi sgiliau Cymraeg athrawon.
2. Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau i ddarparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru ar gyfer hyfforddi athrawon â sgiliau Cymraeg, a hynny yn seiliedig ar dargedau cenedlaethol Cymraeg 2050. Dylai gweithio tuag at gyflawni’r targedau hyn fod yn amod wrth achredu darpariaeth AGA yng Nghymru.
3. Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr AGA yn cyhoeddi cynllun marchnata a recriwtio hyfforddeion cyfrwng Cymraeg.
4. Dylid parhau i ddarparu cymelldaliadau ariannol i fyfyrwyr sydd am hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid gwneud mwy i hyrwyddo’r grantiau fel ffordd o gymell myfyrwyr sydd â diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y broses o osod targedau ar gyfer hyfforddeion cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw gymelldaliadau ariannol i’r hyfforddeion hyn, yn cynnwys hyfforddeion sy’n ymrwymo i ddysgu’r Gymraeg yn ystod cyfnod hyfforddi fel athro.
6. Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo’r Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon i arwain gwerthusiad o’r fframwaith cymelldaliadau presennol a chynnig argymhellion ar gyfer fframwaith newydd hir dymor.
7. Dylai Llywodraeth Cymru arwain ar lunio strategaeth genedlaethol a hirdymor er mwyn gweddnewid darpariaeth Gymraeg ar gyrsiau AGA yng Nghymru. Dylid datblygu darpariaeth AGA sy’n datblygu sgiliau Cymraeg pob athro o dan hyfforddiant. Dylid gosod fframwaith eglur a manwl yn ei le, ac iddo drefniadau

atebolrwydd cadarn, ar gyfer defnyddio’r broses achredu cyrsiau AGA fel ffordd o godi safonau a chynyddu disgwyliadau o ran y Gymraeg gam wrth gam.

8 Dylid defnyddio’r Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon fel sail ar gyfer cynllunio a gweithredu darpariaeth AGA gydlynol ac aml-haenog.

9 Dylai’r Llywodraeth ystyried rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol mewn unrhyw strategaeth ar gyfer gwella sgiliau Cymraeg hyfforddeion AGA, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg dwys i unrhyw athro o dan hyfforddiant sy’n dymuno gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

10 Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn darparu fframwaith mwy eglur a thryloyw o ran yr hyfforddiant fydd yn cael ei ddarparu i wella sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Dylai hyn gynnwys eglurder ynglŷn â’r cyllid a ddyrannir i wahanol sefydliadau at y pwrpas hwn.

11 Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn llawn y gwerthusiad arfaethedig o’r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, ac yn benodol unrhyw argymhellion fydd yn cael eu cynnig.

12 Yn unol ag argymhelliad 6, dylai’r Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon edrych yn benodol ar ffyrdd o gymell pob athro yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam, ac i ddefnyddio’r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng addysgu.

13 Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder am swyddogaethau’r gwahanol sefydliadau perthnasol wrth weithredu argymhellion y papur hwn.

# 1. Cyd-destun polisi

Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn gosod gweledigaeth i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg o 562,00 (cyfrifiad 2011) i un filiwn erbyn 2050, ac i gynyddu'r defnydd dyddiol o'r iaith o 10% (2013-15) i 20% erbyn 2050.

Mae gan y sector addysg yng Nghymru rôl gwbl allweddol i'w chwarae yn cyflawni'r targedau hyn, ac mae cyfraniad y sector yn seiliedig ar dri phrif darged twf:

- **Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg:** Cynyddu'r nifer sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, o 22% yn 2017, i 30% yn 2031, ac i 40% yn 2050.

- **Cynyddu'r nifer sy'n gadael y sector addysg cyfrwng Saesneg/dwyieithog yn siarad Cymraeg:** Mae'r taflwybr i'r filiwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd 35% (sef 8,500 o ddisgyblion) yn gadael y sector addysg cyfrwng Saesneg/dwyieithog yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn 2031. Yn 2050, y targed yw 50% (sef 10,500).

- **Cynyddu'r nifer o athrawon cyfrwng Cymraeg**: cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn gallu dysgu'r Gymraeg fel pwnc.


Bydd cyflawni'r ddau amcan cyntaf yn dibynnu ar gyflawni'r trydydd amcan, hynny yw, bod digon o athrawon yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Llywodraeth wedi gosod targedau ar gyfer y nifer o athrawon fydd eu hangen er mwyn galluogi cyflawni'r amcanion uchod (gweler ffigur 1 isod). Nid yw'n glir beth yw sail fethodolegol y targedau hyn, ac nid yw chwaith yn glir os yw'r targedu hyn yn seiliedig ar nifer yr athrawon fydd eu hangen ar gyfer holl ysgolion Cymru, neu dim ond ar gyfer twf ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yr hyn sy'n amlwg fodd bynnag, yw bod y targedau hyn yn heriol ac yn gofyn am ymyrraeth sylweddol er mwyn cynyddu'n radical nifer yr athrawon yng Nghymru sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffigur 1:** Cyfraniad y sector addysg i'r taflwybr tuag at filiwn o siaradwyr, yn seiliedig ar dargedau Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru

| **Blwyddyn** | | **2017** | **2021** | **2026** | **2031** | **2036** | **2041** | **2046** | **2050** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y taflwybr i'r filiwn** | | 570,000 | 600,000 | 630,000 | 680,000 | 750,000 | 830,000 | 920,000 | 1,000,000 |
| **Addysg cyfrwng Cymraeg** | | 22%<br>7,700 | 24%<br>8,400 | | 30%<br>10,500 | | | | 40%<br>14,000 |
| **Cynyddu nifer/canran disgyblion y sector cyfrwng Saesneg fydd yn gadael yr ysgol yn siarad Cymraeg** | | | | | 35%<br>8,500 | | | | 50%<br>10,500 |
| **Athrawon Cyfrwng Cymraeg** | **Cynradd** | **2,900** | **3,100** | | **3,900** | | | | **5,200** |
| | **Uwchradd** | **1,800** | **2,200** | | **3,200** | | | | **4,200** |
| | **Cymraeg fel pwnc** | **500** | **600** | | **900** | | | | **1,200** |


# 2. Darlun ystadegol

**Ffigur 2:** Niferoedd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), a thargedau Strategaeth Cymraeg 2050




| | 2010/ 2011 | 2011/ 2012 | 2012/ 2013 | 2013/ 2014 | 2014/ 2015 | 2015/ 2016 | 2016/ 2017 | 2017/ 2018 | 2018/ 2019 | 2019/ 2020 | 2021 | 2031 | 2050 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 2812 | 2872 | 2869 | 2934 | 2891 | 2867 | 2853 | 2827 | 2789 | 2731 | 3100 | 3900 | 5200 |
| **Uwchradd** | 1848 | 1779 | 1870 | 1851 | 1751 | 1659 | 1664 | 1772 | 1683 | 1666 | 2200 | 3200 | 4200 |

**Ffigur 3:** nifer yr athrawon ysgol sydd wedi'u cofrestru gyda CGA yn ôl sgiliau yn y Gymraeg[1]





| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarad Cymraeg** | 12,341<br>31.7% | 12,396<br>32% | 12,366<br>32.3% | 12,309<br>32.5% | 12,404<br>32.9% | 12,442<br>33.3% | 12,396<br>33.5% | 12,173<br>33.4% | 12,030<br>33.5% | 11,937<br>33.6% | 11,804<br>33.6% |
| **Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg** | 10,105<br>25% | 10,213<br>26.3% | 10,212<br>26.7% | 10,180<br>26.9% | 10,229<br>27.2% | 10,244<br>27.4% | 10,209<br>27.6% | 10,043<br>27.6% | 9,888<br>27.5% | 9,663<br>27.2% | 9,549<br>27.2 |
| **Cyfanswm athrawon cofrestredig** | 38,896 | 38,770 | 38,290 | 37,862 | 37,673 | 37,355 | 36,951 | 36,436 | 35,929 | 35,545 | 35,171 |
| **Gweithwyr cymorth dysgu ysgol** | Dim data ar gael[2] | | | | | | | 33,424 | 36,103 | 37,325 | - |

**Ffigur 4:** nifer yr athrawon ysgol newydd gymhwyso sydd wedi'u cofrestru gyda CGA â sgiliau yn y Gymraeg


[1] Mae'r categori 'Siarad Cymraeg' yn seiliedig ar y cofrestreion hynny sydd wedi datgan a ydynt yn rhugl, neu'n weddol rugl, yn yr iaith Gymraeg. Mae'r categori 'Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg' yn seiliedig ar y cofrestreion hynny sydd wedi datgan y cawsant eu hyfforddi i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, eu bod yn gweithio ar hyn o bryd drwy gyfrwng y Gymraeg neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, neu a ydynt yn teimlo'n hyderus i wneud hynny.

[2] Nid oedd gofyn i weithwyr cymorth dysgu ysgol gofrestru cyn 2016, ac felly dyma'r rheswm nad oes data ar gael.




| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarad Cymraeg** | 453 | 326 | 380 | 373 | 383 | 350 |
| **Gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg** | 388 | 245 | 315 | 273 | 283 | 285 |
| **Cyfanswm ANGau** | 1268 | 1228 | 1149 | 1207 | 1165 | 1168 |

**Ffigur 5:** nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf (is-raddedig ac ôl-raddedig) ar gyrsiau AGA yng Nghymru sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch




| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 145 | 145 | 195 | 180 | 135 | 150 | 145 | 110 | 95 |
| **Uwchradd** | 125 | 120 | 105 | 140 | 120 | 95 | 90 | 100 | 75 |
| **Cyfanswm sy'n hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg** | 270 | 265 | 300 | 320 | 255 | 245 | 235 | 210 | 170 |
| **Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | 1510 | 1495 | 1440 | 1330 | 1245 | 1065 | 1010 | 990 | 890 |
| **Ddim yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond yn rhugl yn y Gymraeg** | 165 | 85 | 125 | 100 | 115 | 100 | 130 | 115 | 105 |


**Ffigur 6:** Myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru ar gyrsiau AGA yn y DU yn ôl gwlad astudio a blwyddyn. Yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AGA yng Nghymru** | 1,430 | 1,400 | 1,425 | 1,370 | 1,250 | 1,150 | 1,105 | 1,025 | 935 |
| **AGA yn Lloegr** | 420 | 395 | 485 | 440 | 465 | 460 | 560 | 530 | 555 |
| **Cyfanswm hyfforddeion AGA BL1af o Gymru** | 1,850 | 1,795 | 1,915 | 1,810 | 1,715 | 1,610 | 1,670 | 1,555 | 1,490 |


**Ffigur 7:** Myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl gwlad gartref a blwyddyn. Yn seiliedig ar ddata Cofnod Myfyrwyr Addysg Uwch

| | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 1,430 | 1,400 | 1,425 | 1,370 | 1,250 | 1,150 | 1,105 | 1,025 | 935 |
| **Lloegr** | 245 | 290 | 250 | 230 | 200 | 110 | 105 | 105 | 85 |
| **Yr Alban** | - | 5 | 5 | 5 | - | - | - | - | - |
| **Gogledd Iwerddon** | 20 | 10 | 10 | 10 | 10 | 15 | 5 | 5 | 5 |
| **Arall UE** | 70 | 45 | 35 | 25 | 25 | 15 | 10 | 15 | - |
| **Heb fod o’r UE** | 15 | 10 | 15 | 10 | 15 | 20 | 15 | 45 | 35 |

**Ffigur 8:** Nifer athrawon ysgol[3] wedi cofrestru â CGA ar 1 Mawrth 2020 yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg a chonsortiwm





**Ffigur 9:** Nifer athrawon ysgol wedi cofrestru â CGA ar 1 Mawrth 2020 yn ôl eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a chonsortiwm





[3] Nid yw'r data hwn ar gyfer consortia rhanbarthol yn cynnwys athrawon cyflenwi a'r rhai 'eraill mewn swydd ac eraill nad ydynt mewn swydd' (er enghraifft, cofrestreion wedi'u cyflogi fel athrawon peripatetig neu ymgynghorol, cofrestreion wedi'u cyflogi mewn rôl gefnogol neu addysg bellach, ac athrawon sydd wedi ymddeol neu rheini heb gyflogaeth ar eu cofnod).

**Ffigur 10:** Canran athrawon ysgol[4] wedi'u cofrestru gyda CGA ar 1 Mawrth 2020 yn ôl eu gallu i siarad Cymraeg ac i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, fesul awdurdod lleol





**Ffigur 11:** Nifer athrawon ysgol wedi'u cofrestru â CGA ar 1 Mawrth 2020 ôl eu gallu i siarad Cymraeg ac i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, fesul awdurdod lleol




[4] Nid yw'r data hwn ar gyfer awdurdodau lleol yn cynnwys athrawon cyflenwi a'r rhai eraill sydd mewn ac nad ydynt mewn swydd (er enghraifft, cofrestreion wedi'u cyflogi fel athrawon peripatetig neu ymgynghorol, cofrestreion wedi'u cyflogi mewn rôl gefnogol neu addysg bellach, ac athrawon sydd wedi ymddeol neu rheini heb gyflogaeth ar eu cofnod).

**Ffigur 12:** Nifer yr athrawon ysgol wedi'u cofrestru gyda CGA ar 1 Mawrth 2020 yn ôl oedran a'u gallu i siarad Cymraeg, a'u gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg




**Ffigur 13:** athrawon ysgol cofrestredig a dargadwedd yng Nghymru – dadansoddiad olrhain yn seiliedig ar ddata cofrestru CGA

| | **Statws Athro Cymwysedig (SAC) yn 2013** | **Athrawon cofrestredig 2019** | **Athrawon cofrestredig sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg 2019** | **Heb eu cofrestru yn 2019, neu wedi cofrestru â'r CGA mewn categori arall 2019** | **% o'r rhai y dyfarnwyd SAC iddynt yn 2013 sydd bellach heb gofrestru fel athrawon** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | 648 | 453 | 170 | 195 | 30% |
| **Uwchradd** | 776 | 373 | 118 | 403 | 52% |
| **Cyfanswm** | 1424 | 826 | 288 | 598 | 42% |
| | **SAC yn 2008** | | | | |
| **Cynradd** | 928 | 489 | 160 | 439 | 47% |
| **Uwchradd** | 935 | 400 | 112 | 535 | 57% |
| **Cyfanswm** | 1863 | 889 | 272 | 974 | 52% |

## 2.1 Prif gasgliadau sy’n deillio o’r darlun ystadegol

1. Mae targedau athrawon strategaeth Cymraeg 2050 yn heriol, ac yn golygu gwyrdroi tueddiadau’r degawd diwethaf.

2. Mae nifer yr athrawon sy’n gallu siarad Cymraeg neu yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn weddol gyson rhwng 2009-2015, ond wedi lleihau yn sylweddol ers hynny. Yn ôl data CGA mae bron i 700 yn llai o athrawon sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020 o’i gymharu â 2015. Dylid nodi bod gostyngiad cyfatebol wedi bod yn nifer yr athrawon yn fwy cyffredinol ac mae’r ganran o athrawon sy’n gallu siarad Cymraeg ac sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros yn weddol gyson ers 2015  (gweler Ffigur 3).

3. Mae mwy o weithwyr cymorth dysgu ysgol nag o athrawon yng Nghymru erbyn hyn. Nid oedd gofyniad statudol i gofrestru gweithwyr cymorth dysgu ysgol cyn 2016, felly mae’n anodd gwybod os oes cynnydd sylweddol wedi bod dros y degawd diwethaf, a'r graddau mae hyn yn cyfateb i ostyngiad yn nifer yr athrawon cofrestredig yng Nghymru (Gweler Ffigur 3, tabl).

4. Mae nifer sylweddol o athrawon sy’n datgan eu bod yn rhugl neu’n weddol rugl drwy gyfrwng y Gymraeg, ond sydd ddim yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler Ffigur 3).

5. Mae cwymp trawiadol yn y pum mlynedd diwethaf yn nifer yr athrawon ysgol newydd gymhwyso (ANGau) sydd yn gallu siarad Cymraeg neu yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r gostyngiad o 23% ar gyfer ANGau sy’n gallu siarad Cymraeg, a’r cwymp o 27% yn y rhai sy’n gallu gweithio drwy gyfrwng Cymraeg, yn llawer mwy na’r cwymp o 8% yng nghyfanswm ANGau (Gweler Ffigur 4). Dylid nodi bod y gostyngiad cyffredinol hwn i raddau yn ganlyniad i benderfyniadau polisi bwriadol yn dilyn adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon yn 2006.

6. Mae nifer y myfyrwyr ar gyrsiau AGA yng Nghymru ar ei isaf ers i’r cofnod gychwyn yn 2010/11, ac mae’r cyfanswm o fyfyrwyr AGA blwyddyn gyntaf sy’n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2018/19 (170 o fyfyrwyr) bron i hanner y nifer oedd yn hyfforddi yn 2013/14 (320 o fyfyrwyr). Mae’r gostyngiad hwn yn adlewyrchu cwymp cyffredinol yn nifer y myfyrwyr sy’n astudio cyrsiau AGA yng Nghymru (Gweler Ffigur 5).

7. Nid yw nifer sylweddol o hyfforddeion AGA sy’n hunan-adrodd eu bod yn rhugl yn y Gymraeg ar gychwyn eu cwrs yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y blynyddoedd diwethaf mae’r nifer o hyfforddeion sy’n rhugl yn y Gymraeg, ond sydd ddim yn hyfforddi i

addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch na 50% o'r cyfanswm sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**8.** Er bod nifer myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru sydd ar gyrsiau AGA wedi lleihau yn sylweddol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, mae'r cyfanswm sy'n astudio yn Lloegr wedi cynyddu yn yr un cyfnod. Yn 2018/19 mae mwy nag un o bob tri myfyriwr blwyddyn gyntaf o Gymru yn astudio cyrsiau AGA yn Lloegr. Mae'r nifer o fyfyrwyr blwyddyn cyntaf o Gymru sy'n astudio yng Nghymru wedi lleihau yn sylweddol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, ac mae'r nifer o fyfyrwyr o tu allan i Gymru, ond sydd yn astudio yng Nghymru, wedi lleihau yn ogystal (gweler ffigurau 6 a 7).

**9.** Y grwpiau oedran 30-39 sy'n cynnwys y nifer uchaf o athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae'r data ynglŷn â niferoedd ANGau a myfyrwyr AGA felly yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yng nghyfanswm athrawon cyfrwng Cymraeg dros y ddegawd nesaf (hynny yw, os na fydd ymyraethau sylweddol er mwyn gwyrdroi hyn).

**10.** Mae ffigyrau am ddargadwedd athrawon yn destun pryder amlwg. Mae dros hanner yr athrawon y dyfarnwyd Statws Athro Cymwysedig (SAC) iddynt yn 2008 erbyn hyn wedi gadael y proffesiwn addysgu. Wrth ddehongli'r ffigyrau hyn fodd bynnag, dylid pwysleisio nad yw tua 25% o'r myfyrwyr sy'n hyfforddi fel athrawon yn cofrestru gyda'r CGA o fewn blwyddyn gyntaf o gymhwyso fel athrawon. Mae'n debyg bod cyfran sylweddol o'r 25% yma yn mynd i addysgu mewn gwledydd eraill, neu yn cael swyddi eraill o fewn y byd addysg neu tu hwnt.

**11.** Mae data'r Llywodraeth a data CGA yn wahanol oherwydd methodoleg casglu data. Ni ellir defnyddio data CGA er mwyn trafod a dadansoddi targedau Cymraeg 2050. Mae amryw o resymau dros y gwahaniaethau hyn. Er enghraifft, mae'r CGA yn casglu data yn seiliedig ar gofrestriadau gan unigolion sy'n cael eu diweddaru'n flynyddol, ac mae'n cynnwys athrawon cyflenwi ac athrawon sydd ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Mae hefyd nifer sylweddol o unigolion sy'n cofrestru gyda CGA yn cofrestru mewn mwy nag un categori a dyma reswm arall pam fod nifer yr athrawon yn uwch yn setiau data CGA. Mae CGA a'r Llywodraeth hefyd yn dehongli athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ffyrdd gwahanol. Mae CGA yn gofyn i unigolion nodi os ydynt yn gallu siarad Cymraeg, neu yn weddol rugl yn y Gymraeg, ac os ydynt yn gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data'r Llywodraeth yn seiliedig ar Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, ac yn casglu data am nifer yr athrawon sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, Cymraeg fel ail-iaith, pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg, rhai sy'n gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud, a'r rhai sydd ddim yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae targedau strategaeth Cymraeg 2050 yn seiliedig ar nifer athrawon cynradd sy'n nodi

eu bod yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf, nifer yr athrawon uwchradd sy’n nodi eu bod yn dysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, a hefyd nifer yr athrawon sy’n dysgu Cymraeg fel pwnc mewn ysgolion uwchradd. I grynhoi, mae sawl ffordd wahanol o gyfrifo faint o athrawon sy’n bodoli yng Nghymru, a faint o’r rhain sy’n athrawon cyfrwng Cymraeg.

**12.** Ymhellach na phroblemau ynglŷn â chysondeb rhwng setiau data gwahanol, mae rhywfaint o fylchau amlwg yn y data sy’n bodoli. Er bod rhywfaint o wybodaeth ynglŷn ag athrawon sydd â sgiliau yn y Gymraeg ond sydd ddim ar hyn o bryd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, nid oes llawer o wybodaeth yn bodoli ynglŷn â rhugldر a hyder y siaradwyr hyn, yn ogystal â’u brwdfrydedd i ddefnyddio’r Gymraeg wrth addysgu. Ar hyn o bryd prin yw’r wybodaeth sy’n bodoli am sgiliau ieithyddol gweithwyr cymorth dysgu ysgol.

# 3. Dadansoddi strategaethau'r Llywodraeth ac argymhellion i'r dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir fod cynyddu niferoedd y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn gwbl allweddol er mwyn cyflawni gweledigaeth strategaeth Cymraeg 2050. Mae *Cynllun gweithredu Cymraeg 2050 (2019-20)* a *Chynllun gweithredu'r Gymraeg mewn addysg 2017-21* yn cynnwys amryw o bwyntiau gweithredu penodol er mwyn cynyddu'r nifer o athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er bod gan Lywodraeth Cymru eisoes gynllun gweithredu sylweddol ar gyfer cynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n deg cwestiynu'r graddau y mae'r cynlluniau hyn yn adlewyrchu maint yr her sy'n bodoli mewn gwirionedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r cynlluniau sylweddol sydd eisoes yn bodoli, ac yna yn ystyried ac yn cynnig argymhellion penodol ar gyfer sut y gellid ehangu a chryfhau rhai o'r cynlluniau hyn. Mae'r argymhellion hyn yn amlinellu'r materion polisi mwyaf arwyddocaol fydd angen eu hystyried wrth lunio strategaeth uchelgeisiol a hir dymor ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Wrth gyflwyno'r argymhellion isod, dylid pwysleisio eu bod yn aml yn ategu ac yn adeiladu ar argymhellion a wnaed eisoes mewn adroddiadau blaenorol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â'r *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon* a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi yn 2018. Nid ymgais sydd yma i ailadrodd canfyddiadau'r adroddiad hwn, ond yn hytrach i dynnu sylw at y ffaith nad yw'r argymhellion a wnaethpwyd wedi'u gweithredu yn llawn ym mhob achos, a bod rhagor o waith i'w wneud i'r perwyl hwn.

Gellir rhoi'r strategaethau ar gyfer cynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg mewn tri chategori cyffredinol; 1) strategaethau ar gyfer annog unigolion i ymuno â'r proffesiwn; 2) strategaethau yn ymwneud â'r broses hyfforddi athrawon; a 3) strategaethau ar gyfer cynnal a datblygu sgiliau'r gweithlu presennol.

## 3.1 Annog siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn addysgu yng Nghymru

Y ffordd symlaf a mwyaf uniongyrchol i sicrhau bod cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yw canolbwyntio ar sgiliau ieithyddol hyfforddeion ar bwynt mynediad at AGA. Hynny yw, mabwysiadu strategaeth bwrpasol i recriwtio mwy o fyfyrwyr sydd eisoes yn rhugl yn Gymraeg i hyfforddi fel athrawon.

### 3.1.1 Strategaeth recriwtio yn seiliedig ar ddadansoddiad ystadegol dilys a dibynadwy

Er mwyn gweithredu strategaeth recriwtio a hyfforddi athrawon effeithiol, mae'n hollbwysig cael darlun cadarn o'r sefyllfa gyfredol o ran sgiliau ieithyddol athrawon. Fel mae'r adran flaenorol yn ei ddangos, mae ystod o ddata eisoes ar gael am y gweithlu addysg statudol yng Nghymru. Mae'r setiau gwahanol o ddata sy'n bodoli i gyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg. Er hynny, nid yw wastad yn bosib croesgyfeirio a chymharu gwahanol setiau o ddata mewn ffordd ystyrlon, yn bennaf oherwydd bod prosesau casglu data yn amrywio, a bod ffyrdd o ddiffinio athrawon cyfrwng Cymraeg hefyd yn amrywio (gweler pwynt 11 yn yr adran flaenorol). Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd ar brydiau i ddehongli a mesur cynnydd yn erbyn targedau athrawon cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnal Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019. Pan fydd canlyniadau'r cyfrifiad hwn yn cael eu cyhoeddi, dylai'r data ddarparu gwybodaeth bellach am lefel sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn ysgolion Cymru. Bydd hyn yn hollbwysig ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol, ac unrhyw strategaethau penodol ar gyfer denu rhagor o siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn.

O ystyried y bydd y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion yn darparu gwybodaeth bellach am sgiliau ieithyddol athrawon yng Nghymru, credwn ei bod yn amserol i ddadansoddi'r holl ffynonellau data sy'n bodoli am sgiliau ieithyddol athrawon yng Nghymru. Mae'n gyfle i bwyso a mesur yr holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu ac i ystyried a oes angen addasu a datblygu prosesau casglu data er mwyn galluogi cynllunio ieithyddol mwy effeithiol. Er enghraifft, mae cwestiynau pwysig i'w hystyried ynglŷn â sut yn union mae diffinio 'athro cyfrwng Cymraeg' a sut mae mesur a chofnodi lefelau gwahanol o hyfedredd yn yr iaith Gymraeg ymysg y gweithlu yn fwy cyffredinol. Hyderwn fod hyn yn hollbwysig yng nghyd-destun amcanion y Llywodraeth i'r sector addysg cyfrwng Saesneg, a'r angen felly i gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws holl ysgolion er mwyn gwireddu gweledigaeth y cwricwlwm newydd. Felly, mae angen sicrhau bod y data sy'n cael ei gasglu yn galluogi'r Llywodraeth a'u partneriaid allweddol i fodelu a chynllunio yn fanwl o ran anghenion y gweithlu addysg yng Nghymru yn ystod oes strategaeth Cymraeg 2005.

**Argymhellion**

1. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r CGA ddefnyddio'r holl ffynonellau data sydd ar gael er mwyn dadansoddi'n fanwl yr angen fydd yn y dyfodol am athrawon cyfrwng Cymraeg. Dylai hyn gynnwys:

   a) Diweddaru'r dadansoddiad ynghylch nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg fydd eu hangen ar bwyntiau penodol yn y dyfodol er mwyn cyflawni targedau addysg strategaeth Cymraeg 2050. Dylai hyn gynnwys nifer yr

athrawon fydd eu hangen mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg.

b) Datblygu a chytuno ar ddiffiniadau mwy gwrthrychol o ‘athro cyfrwng Cymraeg’ ac ‘athro sy’n gallu siarad Cymraeg’. Dylid datblygu dull mwy soffistigedig o ddisgrifio a chofnodi sgiliau Cymraeg athrawon, a hynny mewn perthynas ag amcanion Cymraeg 2050 o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg.

c) Dadansoddi’r sefyllfa gyfredol, gan gynnwys faint o athrawon cyfrwng Cymraeg sy’n addysgu ar hyn o bryd, faint o athrawon eraill sy’n gallu siarad Cymraeg, a beth yw lefelau rhuglder yr athrawon sy’n nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

d) Dadansoddi faint o athrawon fydd yn debygol o fod wedi gadael y proffesiwn ar bwyntiau gwahanol yn y dyfodol, boed hynny oherwydd oedran ymddeol neu dueddiadau hanesyddol dargadwedd.

e) Creu model ystadegol er mwyn cyfrifo’r bwlch tebygol rhwng targedau’r Llywodraeth (a) a’r sefyllfa bresennol (c a d), fydd felly yn darparu amcangyfrif o’r nifer o athrawon newydd y bydd angen eu hyfforddi dros gyfnod penodol o amser. Hynny yw, os bydd angen 3200 o athrawon uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2031, faint o athrawon newydd fydd angen eu hyfforddi yn ystod y ddeng mlynedd nesaf?

### 3.1.2 Gosod targedau recriwtio a strategaethau marchnata

Fel y mae’r darlun ystadegol uchod yn ei ddangos, mae tueddiadau diweddar mewn perthynas â recriwtio athrawon yn destun pryder. Mae nifer yr unigolion ar gyrsiau AGA wedi bod yn disgyn yn gyson dros y degawd diwethaf. Mae pryderon felly yn bodoli ynglŷn â sicrhau digon o athrawon yn gyffredinol, yn ogystal â’r angen i gynyddu’r nifer o athrawon sy’n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth adroddiad cyntaf y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru yn 2019 i’r casgliad eu bod yn pryderu am y *‘bwlch sylweddol a chynyddol rhwng targedau ar gyfer recriwtio AGA a niferoedd y myfyrwyr sy’n cael eu recriwtio’* a bod hyn yn wir am y sector cynradd ac uwchradd erbyn hyn. Mae’r adroddiad yn pwysleisio eu bod yn pryderu yn benodol *‘am ddiffygion ym maes y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn arbennig yng nghyd-destun uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.’*

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cael gwared ar y capiau niferoedd ar gyfer pob pwnc (ac eithrio Addysg Gorfforol) ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21. Maent hefyd wedi gosod gofyniad ar ddarparwyr i weithio tuag at y targed bod 30% o hyfforddeion AGA yn gallu siarad Cymraeg. Er bod y camau hyn yn rhai cadarnhaol, nid yw’n glir ar sail pa ddadansoddiad ystadegol y penderfynwyd ar y ffigwr o 30%, ac nid yw gosod targed yn seiliedig ar ganran yn debygol o fod yn effeithiol pan fo

cyfanswm yr hyfforddeion yn parhau i ostwng. Fel y mae adran 3.1.1 yn ei nodi, mae angen datblygu dadansoddiad ystadegol llawer manylach o'r sefyllfa bresennol er mwyn galluogi cynllunio mwy effeithiol a phwrpasol. Dylid gosod targedau hyfforddi athrawon yn seiliedig ar niferoedd, a dylid darparu trosolwg o sut bydd y targedau hyn yn cael eu cynyddu dros amser. Dylai unrhyw dargedau neu gymelldaliadau sy'n ymwneud ag athrawon cyfrwng Cymraeg fodoli ochr yn ochr â rhaglen dysgu Cymraeg gynhwysfawr sy'n agored i bob person sy'n hyfforddi fel athro. Dylai cymhwyso fel athro cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog fod yn agored i bawb sy'n hyfforddi yng Nghymru, waeth beth fo'u sgiliau ieithyddol ar bwynt mynediad i hyfforddi (gweler argymhelliad 9).

Yn ogystal â chynlluniau i gynyddu'r nifer o unigolion sy'n astudio cyrsiau AGA, mae'r Llywodraeth yn ddiweddar wedi cyflwyno cynllun 'llwybrau amgen at addysgu'. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys llwybrau hyfforddi rhan amser, llwybrau mewn swydd, a hefyd llwybr sy'n galluogi athrawon cynradd i weithio yn y sector uwchradd.

Yn ogystal â gosod targedau, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â darparwyr AGA, CGA, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo addysgu fel gyrfa, a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu gyrfa yn y sector cyfrwng Cymraeg. Nid yw'n glir i ba raddau mae hyn yn cynnwys craffu manwl ar strategaethau a phrosesau recriwtio'r darparwyr eu hunain. Yn ogystal â chael cynllun marchnata a recriwtio cenedlaethol, mae angen sicrhau bod strategaethau marchnata a recriwtio unigol y prifysgolion wedi'u llunio mewn ffordd fydd yn sicrhau mwy o hyfforddeion sy'n gallu siarad Cymraeg.

**Argymhellion**

2 Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau ar gyfer nifer yr athrawon â sgiliau Cymraeg y bydd angen eu hyfforddi fesul blwyddyn hyd at 2031, yn seiliedig ar ddadansoddiad ystadegol manwl (gweler argymhelliad 1). Dylai'r targedau cenedlaethol gael eu defnyddio i osod targedau i bob darparwr AGA yng Nghymru, a dylai gweithio tuag at gyflawni'r targedau hyn fod yn amod wrth achredu darpariaeth AGA yng Nghymru.

3 Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol bod darparwyr AGA yn cyhoeddi cynllun marchnata a recriwtio sy'n egluro sut maent yn bwriadu cyflawni'r targedau sydd wedi'u gosod o ran hyfforddeion cyfrwng Cymraeg.

### 3.1.3 Cymelldaliadau ariannol

Mae Llywodraeth Cymru ers rhai blynyddoedd bellach yn cynnig cymhelliant ariannol i fyfyrwyr AGA cyfrwng Cymraeg. Mae Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn cynnwys grantiau sy'n cymell unigolion cymwys i gwblhau rhaglen AGA ôl-radd Uwchradd yng Nghymru sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Mae unigolion cymwys yn derbyn grant o £2,500 ar ôl cwblhau rhaglen AGA ôl-radd uwchradd gymwys sy'n arwain at SAC, a £2,500 ar ôl

cwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog neu'n addysgu Cymraeg mewn unrhyw leoliad uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Mae'r grantiau hyn yn bodoli ochr yn ochr â'r grantiau cyffredinol sydd ar gael i hyfforddeion yng Nghymru, ac mae nifer o grantiau gwahanol ar gael yn dibynnu ar bwnc astudio a dosbarth y cymhwyster gradd gyntaf. Er bod y grantiau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, mae'n dal yn bosib cael grant uwch drwy astudio yn Lloegr. Er bod cynnig cymelldaliadau ariannol yn ymddangos fel ffordd syml o gymell unigolion i hyfforddi fel athrawon, mae angen ystyried yn ofalus sut y gellir defnyddio'r cyllid hwn yn y ffordd fwyaf effeithiol. Mae ffigur 11 uchod yn dangos bod mwy na hanner yr unigolion sy'n ennill statws SAC heb gofrestru â'r CGA 10 mlynedd yn ddiweddarach, a chynifer á 40% heb gofrestru â'r CGA bum mlynedd ar ôl cymhwyso fel athrawon. Mae'r ffigyrau hun ar eu pen eu hunain yn sail ar gyfer cwestiynu'r fframwaith presennol ar gyfer cymelldaliadau. Hynny yw, a yw cymelldaliadau o'r fath yn ddefnydd effeithiol o gyllid prin, yn enwedig pan fo tystiolaeth yn dangos nad yw cyfran sylweddol o'r rhai sy'n derbyn y grantiau yn aros yn y proffesiwn yn y tymor hir?

O safbwynt hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg yn benodol, daeth y *Gwerthusiad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon* diweddar i'r casgliad '*nad oedd y cymhelliad ariannol ychwanegol wedi bod yn ystyriaeth o bwys ym mhenderfyniad darpar hyfforddeion i ddewis y llwybr cyfrwng Cymraeg*' ac y byddai'r rhan fwyaf o hyfforddeion wedi penderfynu dilyn eu cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg beth bynnag. Mae'n ddiddorol, fodd bynnag, fod y gwerthusiad hefyd yn nodi bod y cymhelliad ariannol yn *'hanfodol bwysig i lond llaw o'r rhai a gyfwelwyd a gafodd eu perswadio i newid eu hiaith astudio naill ai yn ystod eu cyfweliad neu yn ystod ychydig wythnosau cyntaf eu cwrs. Yn nodweddiadol, roedd y rhain yn hyfforddeion a oedd yn llai hyderus o ran eu sgiliau Cymraeg eu hunain'*. Mae'r casgliad hwn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y ffaith bod nifer sylweddol o fyfyrwyr AGA yn nodi eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, ond ddim yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (gweler ffigur 5 uchod).

Nid ydym yn awgrymu y dylid gwneud unrhyw benderfyniad brysiog ynglŷn â'r cymelldaliadau, a dylid parhau i hyrwyddo'r grantiau sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor byr. Er hyn, byddem yn awgrymu bod lle i edrych o'r newydd ar y fframwaith cymelldaliadau, a hynny law yn llaw â strategaeth gynhwysfawr ar gyfer recriwtio a chadw athrawon. Dylid ystyried yn ofalus sut y gellir defnyddio cymelldaliadau fel rhan o strategaeth ehangach i recriwtio rhagor o athrawon; sicrhau eu bod yn aros yn y proffesiwn, a'u bod yn datblygu eu sgiliau ieithyddol drwy gydol eu gyrfa (gweler argymhelliad 12). Efallai bod ffordd fwy effeithiol o gymell a chefnogi athrawon, a fyddai yn y tymor hwy yn arwain at weithlu addysg fwy bodlon, o safon uwch, a chynyddol ddwyieithog.

Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu un o gasgliadau adroddiad cyntaf y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, oedd yn nodi eu pryder ynglŷn â'r *'tybiaethau cynllunio sy'n ategu AGA, a'r diffyg strategaeth amlwg ac eglur i recriwtio niferoedd digonol at y dyfodol, gan gynnwys cyfraniad strategol cyflog a chymelldaliadau.'* Yn gysylltiedig â hyn, yn ddiweddar comisiynydd y CGA dri adroddiad yn edrych ar strategaethau i

wella niferoedd recriwtio a chadw athrawon mewn 1) cyd-destunau rhyngwladol; b) ystod o feysydd proffesiynol eraill; a c) Cymru o'i gymharu â Lloegr. Byddai'r ymchwil a'r dogfennau hyn yn fan cychwyn defnyddiol er mwyn ailystyried rôl cymelldaliadau o ran recriwtio rhagor o athrawon yn gyffredinol, ac athrawon cyfrwng Cymraeg yn benodol

Yn unol â'r sylwadau uchod am yr angen i sicrhau bod strategaeth ar gyfer cynyddu athrawon cyfrwng Cymraeg yn gynhwysol, dylid ymestyn cymelldaliadau presennol i unrhyw hyfforddeion sy'n ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg fel rhan o'r broses hyfforddi fel athrawon. Byddai hyn yn dibynnu ar fodolaeth a darpariaeth o'r fath sy'n cael ei gyllido'n llawn (gweler argymhelliad 9).

**Argymhellion**

4 Dylid parhau i ddarparu cymelldaliadau ariannol i fyfyrwyr sydd am hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, a dylid gwneud rhagor i hyrwyddo'r grantiau hyn, yn enwedig ar lefel darparwyr AGA, ac yn enwedig fel ffordd o gymell myfyrwyr sydd â diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

5 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau fod y broses o osod targedau ar gyfer hyfforddeion cyfrwng Cymraeg, ac unrhyw gymelldaliadau ariannol i'r hyfforddeion hyn, yn cynnwys hyfforddeion sy'n ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg yn ystod cyfnod hyfforddi fel athro.

6 Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo'r Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon i arwain gwerthusiad o'r fframwaith cymelldaliadau presennol a chynnig argymhellion ar gyfer fframwaith newydd hir dymor. Dylai'r bwrdd ystyried yn benodol rôl cymelldaliadau ariannol fel ffordd o recriwtio a chadw athrawon yn y proffesiwn, ac i gymell athrawon i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai'r bwrdd gydweithio â rhanddeiliaid allweddol eraill wrth gyflawni hyn, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CGA a'r Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

### 3.1.4 Cadw athrawon yn y proffesiwn

Un casgliad amlwg o'r data sydd eisoes yn bodoli yw'r ffaith bod cyfran sylweddol o athrawon yn gadael y proffesiwn yn gymharol fuan ar ôl cymhwyso. Yn ôl data'r CGA, o'r 1,863 o athrawon a gwblhaodd gwrs AGA yn 2008, nid yw 957 bellach wedi'u cofrestru â'r CGA. Mae'n bwysig nodi nad yw tua 25% o unigolion yn cofrestru gyda'r CGA  o fewn blwyddyn o gymhwyso fel athrawon. Mae'n debyg bod nifer helaeth o'r unigolion hyn yn mynd i addysgu dros y ffin, neu yn cael swyddi eraill ym maes addysg. Er bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigyrau hyn mae'n hanfodol fod unrhyw strategaeth ar gyfer y gweithlu addysg yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â dargadwedd. Mae'n rhaid i unrhyw strategaeth ar gyfer cynyddu niferoedd sy'n hyfforddi fel athrawon cyfrwng Cymraeg fodoli ochr yn ochr â

strategaeth fwy holistig ac eang ar gyfer sicrhau bod cyfran uwch o athrawon yn aros yn y proffesiwn.

Nid yw cynnig dadansoddiad manwl o gynnwys strategaeth o'r fath o fewn cwmpas y nodyn briffio hwn, a dylid pwysleisio bod gwaith manwl o'r fath eisoes wedi'i gyhoeddi, a bod y Llywodraeth wedi ymateb i nifer o'r argymhellion. Er enghraifft:

- Yn 2018 comisiynodd Llywodraeth Cymru *Adolygiad annibynnol o gyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru*.
- Yn dilyn hyn cyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad annibynnol *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr*, sy'n mynd i'r afael â rhai o'r prif broblemau o ran cadw athrawon. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â llwyth gwaith, diffyg cefnogaeth ar gyfer athrawon newydd, diffyg llwybr gyrfa deniadol, yn ogystal â diffyg cyfleoedd i athrawon weithio yn fwy hyblyg. Mae'r adroddiad yn cynnig 37 o argymhellion, rhai ohonynt y gellir eu cyflawni yn y tymor byr, ac eraill yn ddatblygiadau mwy hir dymor.
- Mae'r Llywodraeth wedi sefydlu Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, sy'n gyfrifol am argymell diwygiadau ynghylch cyflog ac amodau athrawon er mwyn hwyluso recriwtio a chadw staff.
- Fel rhan o'r broses o gyflwyno cwricwlwm newydd mae'r Llywodraeth wedi lansio Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu proffesiynol, a hefyd y cysyniad o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Mae'r Llywodraeth hefyd yn datblygu cynllun hyfforddi ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso, fydd yn cynnwys rhaglen dysgu proffesiynol benodol ar gyfer athrawon ar gychwyn eu gyrfa. Prif bwrpas y strategaethau hyn yw cefnogi athrawon a gwneud y proffesiwn yn un mwy deniadol.

Y pwynt pwysig felly yw y bydd unrhyw strategaeth i gynyddu athrawon cyfrwng Cymraeg hefyd yn dibynnu ar lwyddiant strategaethau ehangach yn ymwneud â'r amodau a'r profiad o fod yn athro yng Nghymru. Mae'n hollbwysig felly fod y Llywodraeth yn parhau i ystyried yr argymhellion a'r ymchwil sydd eisoes yn bodoli, ac yn cydweithio â'r sefydliadau eraill perthnasol er mwyn gwella'r sefyllfa.

## 3.2 Y broses hyfforddi athrawon

Mae AGA yng Nghymru wedi cael ei ddiwygio'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Mae'r prif newidiadau wedi dod yn sgil cyfres o adolygiadau a arweiniodd at benodi'r Athro John Furlong yn gynghorydd AGA am gyfnod o ddwy flynedd. Yn 2015 cyhoeddodd yr Athro Furlong ei adroddiad *Addysgu Athrawon Yfory* oedd yn cyflwyno cyfres o argymhellion ar gyfer diwygio AGA yng Nghymru. Roedd yr argymhellion mwyaf arwyddocaol yn ymwneud ag adolygu'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a diwygio proses achredu rhaglenni AGA yng Nghymru.

### 3.2.1 Y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon

Mae'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon yn disgrifio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu athrawon rhagorol, ac yn cefnogi twf proffesiynol. Mae gan y safonau rôl allweddol wrth lunio darpariaeth hyfforddi athrawon. Mae'r safonau newydd ar gyfer athrawon yn nodi disgwyliadau i athrawon feddu ar sgiliau yn y Gymraeg, i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg:

- **Disgrifydd arferion effeithiol iawn a pharhaus:** Mae athro'n gweithredu i ganfod cyfleoedd i ddefnyddio ei ddealltwriaeth a'i sgiliau Cymraeg, ac i ehangu'r ddealltwriaeth honno a'r sgiliau hynny.

- **Disgrifydd ymsefydlu:** Ceir ymrwymiad personol i ddatblygu sgiliau gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

- **Disgrifydd SAC:** Ceir ymrwymiad i ddatblygu sgiliau personol gam wrth gam, o ran defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r safonau proffesiynol newydd yn gam cadarnhaol gan eu bod yn gosod disgwyliadau pendant ar athrawon i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

### 3.2.2 Achredu rhaglenni AGA yng Nghymru

Mae'r fframwaith newydd ar gyfer achredu rhaglenni AGA yng Nghymru yn cynnwys dau brif broses ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Yn gyntaf, mae Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu meini prawf ar gyfer achredu cyrsiau neu raglenni hyfforddi athrawon ysgol. Mae'r rheoliadau hefyd yn rhoi dyletswydd ar y CGA i sefydlu pwyllgor ar gyfer achredu rhaglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon a fydd yn bodloni meini prawf y Llywodraeth.

Mae'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA yn gosod disgwyliadau o ran yr hyn y dylai AGA ei gynnwys er mwyn sicrhau bod athrawon newydd yn bodloni'r safonau proffesiynol, ac yn cwrdd â blaenoriaethau addysg y Llywodraeth. Mae'r meini prawf yn gosod disgwyliadau clir o safbwynt y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth y bartneriaeth i'r rheiny sydd am ddilyn gyrfa mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog, a hefyd y ddarpariaeth fydd yn anelu i wella sgiliau Cymraeg holl fyfyrwyr AGA. Mae'r gofynion o ran gwella sgiliau Cymraeg holl fyfyrwyr AGA yn nodi:

> Mae Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes a strategaeth y llywodraeth yn y dyfodol o ran y Gymraeg yn awgrymu y bydd yna newidiadau sylweddol o gymharu â'r hyn yr arferid ei wneud...Mae disgwyliadau Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes yn ei gwneud yn glir y dylai disgyblion, beth bynnag yw cyfrwng eu haddysg, ddisgwyl cyrraedd lefel cymhwysedd rhyngweithredol drwy'r Gymraeg o leiaf erbyn iddynt gwblhau eu hastudiaethau yn 16 oed. Er mwyn sicrhau hyn, bydd angen i ysgolion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith addysgu ar hyn o bryd ddefnyddio'r iaith yn gynyddol wrth weithio gyda dysgwyr...Er mwyn cyrraedd y nodau cenedlaethol hyn, dylai partneriaethau

AGA sicrhau bod ganddynt gynlluniau clir ar gyfer darpariaeth a all wneud yn siŵr bod pob athro o dan hyfforddiant yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Wrth wneud cais i gael eu hachredu, bydd angen i bartneriaethau nodi sut y byddant yn asesu safonau Cymraeg pob athro a fydd yn cofrestru i gael ei hyfforddi, a sut maent yn bwriadu defnyddio amrywiol fethodoleg i feithrin y sgiliau hynny yn ystod profiad AGA y myfyriwr.

Erbyn hyn mae CGA wedi achredu cyrsiau AGA ar draws pedwar partneriaeth wahanol:

- CaBan (Caer a Partneriaeth Gogledd Cymru Bangor)
- Partneriaeth Caerdydd
- Partneriaeth AGA Aberystwyth
- Yr Athrofa – Partneriaeth Dysgu Proffesiynol (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)

Bydd tri phartneriaeth arall yn darparu o 2020/21 ymlaen sef:

- Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe
- Partneriaeth AGA Prifysgol De Cymru
- Partneriaeth y Brifysgol Agored

### 3.2.3 Integreiddio’r Gymraeg i ddarpariaeth graidd AGA

Mae’r safonau proffesiynol newydd ynghyd â’r trefniadau ar gyfer achredu rhaglenni AGA yn symud tuag at integreiddio darpariaeth Gymraeg i’r ddarpariaeth AGA craidd. Mae hyn yn golygu nad oes bellach gynlluniau atodol sy’n canolbwyntio’n benodol ar wella sgiliau Cymraeg hyfforddeion. Er enghraifft, yn y gorffennol roedd amryw o gynlluniau atodol yn bodoli, gan gynnwys y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg (oedd yn gysylltiedig â’r grantiau cymhelliant i hyfforddeion uwchradd cyfrwng Cymraeg), cynllun Colegau Cymru, a hefyd y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith. Roedd y syniad o ymgorffori’r ymyraethau hyn yn narpariaeth graidd AGA yn un o argymhellion y *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon*. Er ein bod yn cytuno’n llwyr â’r angen i ymyraethau o’r fath gael eu cynnwys fel rhan o ddarpariaeth greiddiol cyrsiau AGA, mae yna risgiau ynghlwm â symud i’r cyfeiriad hwn. Heb arweiniad clir a threfniadau atebolrwydd cadarn mae perygl y bydd yr agweddau cadarnhaol o’r cynlluniau blaenorol yn cael eu colli, ac na fydd y broses o’u hintegreiddio i’r ddarpariaeth graidd yn arwain at wella’r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae’n bwysig nodi mai newydd gychwyn y mae'r ddarpariaeth AGA o dan y trefniadau achredu newydd, a bydd gwella’r ddarpariaeth Gymraeg yn broses graddol y bydd rhaid ei gyflawni dros gyfnod hwy o amser. Er hynny, byddai’n ddefnyddiol cael arweiniad llawer mwy eglur a manwl o’r disgwyliadau ar ddarparwyr AGA o ran y Gymraeg, a hefyd sut bydd y disgwyliadau hyn yn cael eu cynyddu dros gyfnod o 10 i 15 mlynedd, mewn perthynas â thargedau addysg Cymraeg 2050. Yn absenoldeb y math hwn o fanylder, atebolrwydd a gweledigaeth hir dymor, y pryder yw na fydd y datganiadau polisi cadarnhaol sydd i’w gweld yn y safonau proffesiynol

a’r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni AGA  yn arwain at newidiadau gwirioneddol i ddarpariaeth AGA yng Nghymru.

Roedd y *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon* yn cynnig cyfres o argymhellion pwysig ynglŷn â’r angen i hyfforddiant sgiliau Cymraeg fod ar gael i holl hyfforddeion AGA. Hynny yw, p’un a yw athrawon am ddilyn gyrfa yn y sector cynradd neu uwchradd, neu’r sector cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, mae’n hanfodol fod cyrsiau AGA yn darparu cyfle iddynt symud ymlaen ar hyd y continwwm iaith. Mae’r gwerthusiad yn awgrymu bod angen symud i ffwrdd o’r dull dwy haen (dechreuwr pur neu siaradwr hyfedr) o ddarparu hyfforddiant sgiliau Cymraeg ar gyrsiau AGA. Rydym yn cytuno â’r argymhellion hyn. Mae’r broses o integreiddio hyfforddiant sgiliau Cymraeg i’r ddarpariaeth graidd AGA yn gyfle euraidd i ddatblygu fframwaith aml-haenog ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg hyfforddeion. Hynny yw, mae angen cyfres o lwybrau hyfforddiant Cymraeg gwahanol sydd wedi’u teilwra ar gyfer hyfforddeion sydd â lefelau hyfedredd gwahanol yn y Gymraeg. Yn ogystal â llwybrau sy’n cynnal a gwella sgiliau Cymraeg y siaradwyr Cymraeg rhugl, a hefyd lwybrau ar gyfer y rhai sydd â braidd dim sgiliau yn y Gymraeg, mae angen sylw penodol i’r nifer sylweddol o hyfforddeion sy’n gallu siarad Cymraeg, ond sydd â diffyg hyder i ddefnyddio’r iaith wrth hyfforddi ac wrth addysgu. Dylid sicrhau cysondeb rhwng y llwybrau hyfforddiant Cymraeg hyn ag unrhyw fframwaith ar gyfer disgrifio, categoreiddio a chofnodi sgiliau Cymraeg athrawon (gweler argymhelliad 1b).

Bydd datblygu fframwaith aml-haenog o’r fath yn gorfod bod yn broses graddol, yn bennaf oherwydd bydd angen datblygu capasiti a gallu'r darparwyr AGA i gynnwys hyfforddiant o’r fath ar gyrsiau AGA. Dyma un rheswm amlwg pam fod angen i Lywodraeth Cymru lunio strategaeth hirdymor, sy’n gosod mewn manylder y disgwyliadau sydd ar ddarparwyr AGA dros y pymtheng mlynedd nesaf. Dylid hefyd ystyried yn ofalus sut gellid defnyddio arbenigedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol fel ffordd o gyflawni amryw o’r amcanion sydd o dan sylw.

### 3.2.4 Asesu sgiliau ieithyddol hyfforddeion AGA

Un datblygiad cadarnhaol diweddar yw’r Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon, sy’n fframwaith ar gyfer mesur a disgrifio sgiliau Cymraeg pob athro o dan hyfforddiant. Mae’r Llywodraeth yn cydweithio â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a’r darparwyr AGA er mwyn cyflwyno a gwerthuso’r fframwaith hwn. Y bwriad yw bod y fframwaith hwn yn cyfuno amryw o’r cynlluniau gwahanol atodol oedd yn bodoli yn y gorffennol, ac yn fframwaith fydd yn berthnasol i bob athro o dan hyfforddiant. Mae’r fframwaith wedi’i addasu o fframwaith disgrifio gallu ieithyddol CEFR. Mae’r fframwaith hwn â photensial amlwg o ran bod yn bwynt canolog ar gyfer cynllunio darpariaeth Gymraeg ar gyrsiau AGA yn gyffredinol. Er enghraifft, gellid defnyddio’r fframwaith er mwyn mesur sgiliau ieithyddol ar bwynt mynediad i AGA, ac felly fel ffordd o adnabod y gefnogaeth a’r math o ymyraethau fyddai fwyaf perthnasol i garfanau gwahanol o hyfforddeion. Byddai’r fframwaith yn gallu bod yn sail effeithiol ar gyfer cynllunio darpariaeth Gymraeg aml-haenog sy’n gwella sgiliau Cymraeg pob athro o dan hyfforddiant. Byddai hefyd modd defnyddio’r fframwaith er mwyn mesur sgiliau hyfforddeion ar ddiwedd eu cyfnod hyfforddi. Nid yn unig byddai hyn yn ffordd

o fesur llwyddiant darpariaeth AGA o ran y Gymraeg, ond byddai hefyd yn ffordd o fesur cyrhaeddiad a lefel sgiliau'r hyfforddeion, ac felly yn berthnasol wrth i unigolion geisio am swyddi mewn ysgolion gwahanol. Y pwynt hanfodol fan hyn yw bod angen i'r fframwaith hwn wneud mwy na disgrifio sgiliau Cymraeg hyfforddeion AGA, ac mae rhaid iddo fod yn sail ar gyfer cynllunio ymyraethau i wella'r sgiliau hyn. Nid yw'n glir i ba raddau mae'r Llywodraeth yn rhannu'r weledigaeth hon o ran y fframwaith dan sylw.

Byddai datblygu fframwaith aml-haenog ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg hyfforddeion AGA yn golygu bod pob athro dan hyfforddiant yn cael cyfle i wella eu sgiliau Cymraeg. Ymhellach na hyn, byddai'n ddefnyddiol cynnig ac ariannu llwybr dysgu Cymraeg dwys i unrhyw athro o dan hyfforddiant sy'n dymuno addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Mae cynsail amlwg i gynllun o'r fath yn bodoli o ystyried y cynllun sabothol sydd ar gael i athrawon, a chredwn fod manteision o gynnig cynllun cyfatebol fel rhan o'r broses hyfforddi fel athro yn y lle cyntaf. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw dargedau neu gymhelliannau ariannol yn gysylltiedig ag athrawon cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn gynhwysol waeth beth fo cefndir ieithyddol unigolion. Mae amryw o opsiynau o ran sut gellid cyflawni hyn, gan gynnwys ymestyn hyd cwrs AGA i hyfforddeion o'r fath, neu drwy gynnig cyrsiau dysgu Cymraeg dwys cyn, ar ôl, neu ochr yn ochr â chyrsiau AGA. Gellid hefyd ystyried sut y gellid defnyddio ysgolion a mentoriaid cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r broses o drochi hyfforddeion yn yr iaith Gymraeg. Unwaith eto, mae'n debyg y byddai arbenigedd a fframweithiau sydd eisoes yn bodoli yng ngwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn allweddol i unrhyw gynllun o'r fath.

### 3.2.5 Strategaeth hyfforddi athrawon sy'n adlewyrchu gweledigaeth y Llywodraeth

Wrth ddadansoddi'r datblygiadau hyn i drefniadau AGA yng Nghymru, rhaid ystyried unwaith eto maint yr her sydd wedi'i osod i'r sector addysg yn sgil gweledigaeth Cymraeg 2050. Mae'r twf a ragwelir mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd yn nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg fydd yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg, â goblygiadau hynod arwyddocaol i'r gweithlu addysg. Mae maint yr her sydd wedi'i gosod yn golygu bod angen ymyrraeth radical yn y ffordd rydym yn hyfforddi athrawon yng Nghymru. Heb ymyrraeth sylweddol, mae perygl y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder athrawon â sgiliau Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n ymadael â'r ysgol yn medru siarad a defnyddio'r Gymraeg. Mae angen i'r broses hyfforddi athrawon greu siaradwyr Cymraeg mwy hyderus, fydd yn ei dro yn arwain at dwf sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gadael yr ysgol. Dyma'r amser i gyflwyno ymyrraeth uchelgeisiol a radical sydd am symbylu'r twf angenrheidiol er mwyn gwireddu strategaeth Cymraeg 2050. Er bod seiliau cadarn wedi'u gosod dros y blynyddoedd diwethaf, heb weithredu pellach, nid ydym o'r farn y gwelwn y cynnydd sydd ei angen er mwyn gwireddu targedau addysg Cymraeg 2050. Mae angen adeiladu ar y seiliau sydd eisoes mewn lle drwy ddatblygu strategaeth fwy cynhwysfawr, beiddgar a manwl fydd yn gosod llwybr eglur ar gyfer cyflawni amcanion hirdymor strategaeth

Cymraeg 2050. Credwn fod rhaid i strategaeth o'r fath gael ei datblygu ar sail tair egwyddor allweddol:

- Yr angen am strategaeth **gynhwysol.** Mae angen strategaeth hyfforddi athrawon sydd yn gwella sgiliau Cymraeg pob athro o dan hyfforddiant, ac nid un sydd wedi'i chyfyngu i garfan benodol o hyfforddeion cyfrwng Cymraeg.

- Yr angen am **strategaeth hir dymor,** sydd yn gosod mewn manylder y camau cynnydd tuag at y nod o sicrhau gweithlu addysg gynyddol ddwyieithog.

- Yr angen am **fanylder ac eglurder** o ran y disgwyliadau ar ddarparwyr AGA, a **threfniadau atebolrwydd cadarn**. Mae angen sicrhau bod gweledigaeth ac ymrwymiadau polisi lefel uchel yn arwain at newidiadau gwirioneddol ar lawr gwlad.

## Argymhellion

7 Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn llunio strategaeth genedlaethol, gydlynol a hirdymor ar gyfer gweddnewid darpariaeth Cymraeg ar gyrsiau AGA yng Nghymru. Dylid gosod fframwaith eglur a manwl, a chanddi drefniadau atebolrwydd cadarn, ar gyfer defnyddio'r broses achredu cyrsiau AGA fel ffordd o godi safonau a chynyddu disgwyliadau o ran y Gymraeg gam wrth gam. Dylai strategaeth o'r fath fod yn un aml-haenog sy'n datblygu sgiliau Cymraeg pob athro o dan hyfforddiant drwy gynnwys ymyraethau penodol ar gyfer carfanau gwahanol o hyfforddeion yn dibynnu ar eu sgiliau ieithyddol ar bwynt mynediad i AGA. Gan sicrhau cysondeb ag argymhelliad 1 (b) mae angen diffinio ac egluro mewn manylder y ddarpariaeth AGA disgwyliedig ar gyfer:

a) Gwella a chynnal sgiliau'r rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg, ac yn bwriadu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

b) Gwella sgiliau a chynyddu hyder y rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg, ond ar hyn o bryd a diffyg hyder i ddefnyddio'r iaith wrth addysgu

c) Darparu sgiliau sylfaenol i'r rhai sydd â phrin dim gallu yn y Gymraeg ar gychwyn y broses hyfforddi

8 Mewn perthynas ag argymhelliad 1 (b) a 7 dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cynsail y Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Athrawon fel ffordd o fesur a disgrifio sgiliau Cymraeg athrawon. Dylid defnyddio'r fframwaith er mwyn mesur sgiliau hyfforddeion ar bwynt mynediad i AGA, ac fel ffordd o benderfynu ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant fwyaf perthnasol ar gyfer myfyrwyr penodol.

Gellid hefyd ddefnyddio'r fframwaith hwn fel ffordd o fesur cynnydd yn sgiliau Cymraeg athrawon (yn ystod eu cyfnod hyfforddi, ac ar ôl hynny).

9 Dylai'r Llywodraeth ystyried rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol mewn unrhyw strategaeth ar gyfer gwella sgiliau Cymraeg hyfforddeion AGA. Yn benodol, dylai'r Llywodraeth gydweithio â darparwyr AGA a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn darparu cwrs Cymraeg dwys i unrhyw athro o dan hyfforddiant sy'n dymuno gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dilyn cwrs o'r fath gael mynediad at y grantiau cymhelliad sydd ar gael i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol.

## 3.3 Cynnal a datblygu sgiliau'r gweithlu

Mae'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon yn glir iawn bod angen i athrawon ymrwymo i ddatblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg gam wrth gam. Yn amlwg, bydd angen cefnogaeth a hyfforddiant penodol ar athrawon er mwyn gallu gwneud hyn. Yn 2018, lansiodd y Llywodraeth y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol, fydd yn cynnwys datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu cyflwyno cynllun hyfforddi newydd sydd yn targedu athrawon newydd gymhwyso yn benodol. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi unigolion yn ystod eu datblygiad cynnar fel athrawon, a bydd datblygu sgiliau yn y Gymraeg yn rhan o'r cynllun. Nid oes llawer o wybodaeth hyd yma am beth yn union fydd y ddarpariaeth o ran y Gymraeg, a'r graddau y bydd hyn yn ddigonol er mwyn cyflawni targedau a gweledigaeth Cymraeg 2050 a'r cwricwlwm newydd. Nid yw chwaith yn eglur pwy yn union fydd yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth o'r fath. Byddai'n ddefnyddiol cael mwy o eglurder am drefniadau cyllido ac atebolrwydd o safbwynt y cyllid fydd yn cael ei ddyrannu i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ac ysgolion i ddatblygu sgiliau Cymraeg athrawon.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fuddsoddi mwy ac ehangu'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, sy'n darparu hyfforddiant Cymraeg dwys i ymarferwyr. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi comisiynu gwerthusiad o'r cynllun sabothol, a fydd yn cael ei ddefnyddio i arwain datblygiad strategol y cynllun yn y dyfodol. Mae'r cynllun sabothol yn hynod bwysig o ran ymdrechion i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol, a bydd y gwerthusiad yn cynnig cyfle i sicrhau fod y cynllun yn cyfrannu mor effeithiol â phosib at y nod o gynyddu gallu'r gweithlu addysg i ddefnyddio'r Gymraeg. Er y bydd rhaid disgwyl i'r gwerthusiad gael ei gyhoeddi cyn cynnig argymhellion pendant yn y cyd-destun hwn credwn ei bod yn hanfodol i'r cynllun gael ei gynllunio a'i weithredu mewn ffordd fwy strategol. Hynny yw, mae angen sicrhau bod y cynllun yn arwain at gynnydd gwirioneddol yn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu ar draws ysgolion Cymru, ac yn hynny o beth yn cyfrannu yn uniongyrchol at wireddu targedau addysg Cymraeg 2050, ac amcanion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

Yn unol ag argymhelliad 6, byddai'n ddefnyddiol ystyried gwahanol opsiynau sy'n bodoli o ran cymell unigolion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu gyrfaoedd

fel athrawon. Mae'r *Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon* yn crybwyll y syniad o sefydlu model fyddai yn gwobrwyo athrawon wrth iddynt ddatblygu a symud ar hyd continwwm ieithyddol o ran gallu yn y Gymraeg. Credwn y dylai'r Bwrdd Cynghori Recriwtio a Cadw Athrawon ystyried hyn wrth edrych yn fwy holistaidd ar ffyrdd o ddenu a chadw athrawon, a hefyd eu cymell i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam.

**Argymhellion**

10 Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn darparu fframwaith mwy eglur a thryloyw o ran yr hyfforddiant fydd yn cael ei ddarparu i wella sgiliau Cymraeg ymarferwyr. Dylai hyn gynnwys eglurder am y cyllid a ddyrennir i wahanol sefydliadau at y pwrpas hwn.

11 Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn llawn y gwerthusiad arfaethedig o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, ac yn benodol unrhyw argymhellion fydd yn cael eu cynnig. Gobeithiwn y bydd y gwerthusiad a'r argymhellion yn ymdrin â:

- a) Ffyrdd o sicrhau bod mynychu'r cwrs sabothol yn arwain at gynyddu defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu wrth i unigolion ddychwelyd i'w swyddi.
- b) Yr angen i'r cynllun gael ei weithredu mewn ffordd fwy strategol a phwrpasol. Dylai cyfranogwyr gael eu recriwtio ar sail amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, a hefyd amcanion ysgolion o ran cynyddu cyfran yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- c) Rôl benodol y cynllun sabothol yn cynyddu hyder a'r defnydd o'r Gymraeg ymysg y garfan sylweddol o athrawon sydd eisoes a sgiliau yn y Gymraeg, ond sydd ddim ar hyn o bryd yn defnyddio'r Gymraeg wrth addysgu.
- d) Y posibilrwydd o ymestyn y cynllun sabothol ar gyfer athrawon sydd yn hyfforddi, neu greu cynllun cyfatebol ar gyfer hyfforddeion AGA.

12 Yn unol ag argymhelliad 6, dylai'r Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon edrych yn benodol ar ffyrdd o gymell pob athro yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam, ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol fel cyfrwng addysgu.

## 3.4 Cynllunio strategaeth genedlaethol

Mae'r holl argymhellion sydd wedi'u cynnig uchod yn adlewyrchu'r angen am strategaeth genedlaethol ar gyfer gwella sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg statudol

yng Nghymru (gweler argymhelliad 7). Yn amlwg, mae gan y Llywodraeth rôl ganolog i'w chwarae yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth o'r fath. Er hyn, mae'n amlwg y bydd angen cydweithio â nifer o sefydliadau allweddol yn y maes, gan gynnwys y darparwyr AGA, Cyngor y Gweithlu Addysg, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Estyn, y Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon, y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Yn amlwg, bydd gan y consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol rôl gwbl allweddol i'w chwarae yn ogystal. Efallai mai rhan o'r broblem ar hyn o bryd yw diffyg eglurder ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am ba elfennau o ddatblygu darpariaeth Cymraeg AGA. Wrth ystyried gweddill argymhellion y papur hwn, credwn ei fod yn hanfodol felly bod y Llywodraeth yn ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o lunio a gweithredu strategaeth ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, ac i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg yn gyffredinol. Wrth wneud hyn mae angen pwysleisio unwaith eto fod gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y sector addysg yng Nghymru o reidrwydd yn golygu bod angen i'r Gymraeg gael ei hystyried yn fater canolog i'r broses o hyfforddi a datblygu athrawon yng Nghymru. Nid strategaeth ategol ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg sydd ei hangen, ond yn hytrach strategaeth hyfforddi a datblygu athrawon sy'n adlewyrchu'r weledigaeth o Gymru ddwyieithog.

**Argymhellion**

13 Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu eglurder am swyddogaethau'r gwahanol sefydliadau perthnasol wrth weithredu argymhellion y papur hwn.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru

@ComyGymraeg
comisiynyddygymraeg.cymru